

Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Fasnach a'r Gadwyn Gyflenwi

Paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf - Cynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb

Cyflwyniad

Ers y Nadolig, mae Llywodraeth Cymru wedi hoelio mwy o sylw ar baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb. Rydym yn dal i obeithio y gall Llywodraeth y DU ddod i gytundeb gyda'r UE, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Brexit heb gytundeb yn bosibilrwydd go iawn ac mae'n cynllunio ar gyfer sefyllfa o'r fath.

Trafod â'r diwydiant

Mae cryn dipyn o ymdrech wedi ei wneud i drafod â'r diwydiant i'w gefnogi i baratoi eu busnesau os na fydd cytundeb Brexit.

- Mae'r **Bwletin Pysgodfeydd a Brexit** wedi'i lansio. Mae'n gylchlythyr dwyieithog electronig. Mae pedwar wedi'u cyhoeddi ers mis Tachwedd 2018, sydd wedi ymdrin â chymorth i fusnesau, allforio i'r UE, ardystiadau, terfynau amser y dylai'r diwydiant fod yn ymwybodol ohonynt, megis dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau cludwyr. Mae Sioeau Teithiol ar Bysgodfeydd a Brexit hefyd wedi'u cyhoeddi. Hyd yma, mae 364 wedi tanysgrifio.
- Mae **cardiau post Brexit** sy'n ddwyieithog wedi'u llunio ar ffurf electronig ac ar ffurf copi caled. Maent yn dangos i'r diwydiant sut i gyrraedd porthol Brexit, hysbysiadau technegol perthnasol a chanllawiau cyhoeddedig. Maent wedi'u dosbarthu i'r holl rhanddeiliaid perthnasol megis WFA, Fisherman's Mission a Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd. Mae DEFRA wedi cydnabod gwerth hyn ac wedi copïo'r syniad! Mae DEFRA yn cynhyrchu cardiau post tebyg ar gyfer sawl mater.
- Mae saith **Sioe Deithiol ar Bysgodfeydd a Brexit** wedi'u cynnal mewn lleoliadau hawdd eu cyrraedd ledled Cymru. Eu diben oedd helpu'r diwydiant i ddeall goblygiadau Brexit a helpu i baratoi busnes wrth inni ymadael â'r UE. Fe'u cyflwynwyd yn ddwyieithog gan ymgynghorydd i gynnig man diogel i drafod materion. Ar adeg ysgrifennu'r darn hwn, nid oedd llawer wedi mynychu'r Sioeau. Nid ydym yn gwybod pam; efallai bod y diwydiant pysgota wedi paratoi'n ddigonol ac nid oes angen cymorth pellach arno neu efallai nad yw pobl am drafod y mater. Os nad yw pobl yn barod i drafod, mae hynny'n destun pryder gan mai dim ond 7 wythnos sydd i fynd. Yn ôl yr adborth cynnar sydd wedi dod i law, roedd llawer yn meddwl bod y digwyddiadau yn ddefnyddiol. Mae'r digwyddiadau wedi sbarduno nifer fawr o gwestiynau ac adborth y mae'n rhaid i'r tîm eu hystyried. O'r bobl hynny a oedd yn bresennol, dim ond ychydig iawn oedd â chynlluniau wrth gefn yn barod pe na bai cytundeb Brexit.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio **gwefan Paratoi Cymru** sy'n cynnig cyfoeth o wybodaeth a chyngor i bob busnes ac yn cynnig cymorth pellach i'r diwydiant pysgota wrth iddo baratoi.

Cyllid

- Yn y Sioeau Teithiol ar Bysgodfeydd a Brexit, roedd nifer bach o bysgotwyr wedi gofyn am iawndal pe na baent yn gallu masnachu yn sgil Brexit heb gytundeb. Ar

adeg ysgrifennu'r darn hwn (24/01/2019), nid oedd unrhyw gronfeydd ar gael gan Drysorlys y DU i gynnig y math hwn o gymorth.

- Yn ddiweddar, roedd y Comisiwn wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth i roi iawndal i'w fflyd pe bai Brexit heb gytundeb a dim mynediad i ddyfroedd y DU. Yn ddiweddar iawn, mae'r UE wedi rhoi gwybod y mae'n bwriadu llunio deddfwriaeth a fydd yn golygu y caiff yr Undeb ddefnyddio EMFF i ddigolledu pysgotwyr yr UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Nid yw'n debygol, felly, y byddai hyn yn gymwys i'r DU pan fydd yn ymadael â'r UE.
- **EMFF** - gweler dogfen ar wahân yr WMFAG am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun presennol.

Cefnogi Allforwyr

- Mae allforwyr yn elfen allweddol o'r gadwyn gyflenwi ac mae llawer o bysgotwyr yng Nghymru yn dibynnu arnynt i brynu eu cynhyrchion a'u hallforio'n fyw neu'n ffres i'r UE. Mae'n hanfodol bod allforwyr yn parhau i fasnachu.
- Mae Allforwyr Cymru hefyd yn dibynnu ar gytundebau masnach yr UE gyda gwledydd eraill, megis De Korea. Nid yw Llywodraeth y DU wedi egluro eto pa un ai y bydd trefniadau amgen yn eu lle mewn pryd ai peidio.
- O ystyried nifer y materion, caiff allforwyr eu gwahodd i weithdy pwrpasol ddechrau mis Chwefror i drafod sut y maent yn paratoi ar gyfer Brexit heb gyntundeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r holl allforwyr y mae'n ymwybodol ohonynt er mwyn cyfarfod â nhw ym mis Chwefror i drafod pa mor barod ydynt ar gyfer Brexit.
- Bydd y digwyddiad yn cynnwys arddangosiad o'r system TG newydd sydd wedi'i datblygu i greu **Tystysgrifau Dalfeydd i'w Hallforio**.
- Mae allforwyr yn dibynnu ar fynediad i'r UE ar gyfer cerbydau. Er nad yw hyn yn rhan o gwmpas gwaith y tîm, rydym yn ceisio darparu gwybodaeth i'r diwydiant ar y newidiadau sy'n cael eu hystyried o ran **Trwyddedau Cludwyr**. Mae'r UE wedi cynnig llacio'r rheolau am gyfnod byr, ond nid yw hyn wedi'i gytuno eto. Felly, ar adeg ysgrifennu'r diweddariad hwn, mae trwyddedau cludwyr yn dal i fod yn ofynnol. Nid yw'n glir eto a fydd digon o drwyddedau ar gyfer y DU i gyd ac ar hyn o bryd, nid yw'r dull blaenoriaethu presennol a gynigir gan yr Adran Drafnidiaeth yn debygol o fod yn fanteisiol i ddiwydiant pysgota Cymru.